# CYLCHLYTHYR TRAWSNEWID ADY

**Tachwedd 2019: Rhif y rhifyn 4**

## Fforwm Rhieni a Gofalwyr ADY Powys

"Rhieni, gofalwyr a'r awdurdod lleol yn gweithio gyda'i gilydd gan gydnabod profiadau, sgiliau a gwybodaeth ei gilydd i helpu i wella gwasanaethau i blant a phobl ifanc ym Mhowys."

Cynhaliwyd sawl cyfarfod o Fforwm Rhieni Gofalwyr ADY Powys, ac yn ddiweddar cynhaliwyd sesiynau gwybodaeth taro heibio. Dros y flwyddyn academaidd nesaf, y gobaith yw y bydd y fforwm yn tyfu mewn niferoedd ac yn llunio'r ddarpariaeth ADY ym Mhowys. Os hoffech wybod mwy am Fforwm Rhieni a Gofalwyr ADY Powys, gallwch edrych ar wefan Powys www.powys.gov.uk/ALN neu gysylltu â ni ar
Ffôn: 01597 826742 E-bost aln.transformation@powys.gov.uk

Mae cyfarfodydd y fforwm yn nhymor y Gwanwyn a'r Haf i'w cynnal ar y dyddiadau canlynol:

- Dydd Mawrth 25 Chwefror 2020 am 6.30pm yn Y Drenewydd
- Dydd Iau 2 Gorffennaf 2020 am 6.30pm yn Aberhonddu

## Diweddariad Llywodraeth Cymru

Cyhoeddodd Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, ar 17 Medi 2019 y byddai'r ddeddfwriaeth ADY newydd yn cael ei gohirio a ddim yn cael ei chyflwyno tan fis Medi 2021.

Nid oes canllawiau gweithredu diweddar wedi'u cyhoeddi hyd yma, ond pan ddaw gwybodaeth bellach, fe wnawn ei rannu â chi. Yn y cyfamser, gellir canfod datganiad llawn gan Lywodraeth Cymru (LIC) ar

https://gov.wales/written-statement-implementation-additional-learning-needs-system

Er gwaethaf yr oedi hwn, gallwn gadarnhau y bydd Cyngor Sir Powys yn parhau gyda'n rhaglen drawsnewid, ac y byddwn yn gwerthuso ein blaenoriaethau tra y byddwn yn aros i dderbyn gwybodaeth bellach oddi wrth Lywodraeth Cymru.

## Adborth o ddigwyddiadau ymgysylltu

Yn ystod digwyddiadau Trawsnewid ADY a gynhaliwyd yn gynharach eleni, dywedodd rhieni a gofalwyr wrthym ni ei bod hi'n bwysig fod dealltwriaeth o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) / Anghenion Dysgu Ychwanegol gan yr holl staff mewn ysgolion. Wedi gweithio'n agos felly gyda chydweithwyr o fewn yr Adran Arlwyo a Glanhau, rydym yn falch o gadarnhau y bydd holl staff arlwyo a glanhau'r ysgolion yn derbyn sgwrs ar godi ymwybyddiaeth o ADY o fewn y gweithle. Ynghyd â'r Gwaith codi ymwybyddiaeth yma, mae bwydlenni ysgol ar hyn o bryd yn cael eu diweddaru gyda thestun hawdd ei ddarllen a disgrifiadau syml o'r bwydydd. Bydd y bwydlenni hyn ar eu newydd gwedd yn cael eu defnyddio mewn ysgolion led led Powys o fis Chwefror.

## Treial RIX Wiki

Bydd pum ysgol o bob rhan o'r sir yn cymryd rhan yng ngham cyntaf Treial Wiki RIX. Os yw'n llwyddiannus, byddwn am ehangu'r treial yn ystod tymor y Gwanwyn 2020.

Gwefan personol syml a hawdd i'w adeiladu yw Wiki. Gellir cael mynediad ato trwy ddefnyddio cyfrifiadur personol, gliniadur, ffôn clyfar neu lechen. Gellir eu defnyddio i greu cynlluniau amlgyfrwng sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n defnyddio lluniau, geiriau, fideo a sŵn i ddal llais, sgiliau, dyheadau ac anghenion yr unigolyn.

Mae Wiki yn cael ei weld fel teclyn defnyddiol iawn i gefnogi addysg, iechyd a chynllunio gofal ar gyfer plant a phobl gydag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r cyngor yn ystyried Wiki i fod yn declyn pwysig i'w helpu i fodloni gofynion Deddf Tribiwnlys Addysg ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018, sy'n nodi'r pwysigrwydd o gael barn a theimladau'r dysgwyr wrth galon y broses o gynllunio'r cymorth sydd ei angen i'w galluogi i oresgyn rhwystrau i ddysgu a chyflawni eu potensial llawn.

Datblygwyd RIX Wiki gan RIX Research and Media, canolfan ymchwil a datblygu rhyngwladol sydd wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Dwyrain Llundain. Yn y fan yma, maen nhw'n ymchwilio a datblygu ffyrdd o ddefnyddio technolegau newydd i drawsnewid bywydau pobl ag anableddau dysgu.

I gael rhagor o wybodaeth am RIK Wiki ewch i www.rixwiki.org/